**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 54

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977

## Cyfarwyddiadau i gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll (Cymru) (Diwygio) 2006

*Wedi'u gwneud* *22 Gorffennaf 2006*

*Yn dod I rym* *24 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau'n arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16BB(4), 17 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn:

**Cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 24 Gorfennaf 2006 ac fe'u rhoddir i gyrff y GIG yng Nghymru.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "Cyfarwyddiadau 2005" yw Cyfarwyddiadau i gyrff y GIG ar Fesurau Gwrth-dwyll 2005.

---

(**1**) 1977 p.49; mewnosodwyd adran 16BB(4) gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ac fe'i diwygiwyd gan adran 184 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) a pharagraffau 7 a 10 o Atodlen 11 iddi. Amnewidiwyd adran 17 gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999") a'i diwygio gan adran 67(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) a pharagraffau 5(1) a (3) o Ran 1 o Atodlen 5 iddi. Trosglwyddir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 17 a 126(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (ac eithro mewn rai achosion sydd ddim yn berthnasol i'r cyfarwyddiadau hyn), i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672 fel y'i diwygiwyd gan adran 66(4) a (5) o Ddeddf 1999.

**Diwygio'r Cyfarwyddiadau 2005**

**2.** Diwygir y Cyfarwyddiadau 2005 fel a ganlyn.

**3.** Ym mharagraff 1(2) (cymhwyso, cychwyn a dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "y CFSMS" (*"the CFSMS"*) ar ôl y gair "Diogelwch" ychwaneger ", a ddisodlwyd ar 1 Ebrill 2006 gan yr Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG"; a

(b) mewnosoder yn nhrfen briodol y wyddor

""ystyr "yr AGB y GIG" (*"NHS BSA"*) yw Awrdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) a sefydlwyd gan Orchymyn Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2005(**1**);";

(c) dileer y diffiniad o "y Gorchymyn".

**4.** Ym mharagraff 2(1) (cyffredinol), ar ôl y geiriau "arweiniad neu gyngor a ddyroddwyd gan y CFSMS" ychwaneger y geiriau "cyn 1 Ebrill 2006 ac nad ydyw wedi'i ddirymu gan yr Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG neu arweiniad neu gyngor a gaiff ei ddyroddi gan yr Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG" ac ar ôl y gair "neu" ychwaneger y geiriau "arweiniad neu gyngor a ddyroddwyd gan".

**5.** Ym mharagraffau 3 (Cydweithredu â'r Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch), 4 (Cydweithredu â'r Tîm Gweithredol (Cymru), 5 (Penodi Arbenigwyr Gwrth-dwyll Lleol), 6 (Cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Arbenigwr Gwrth-dwyll Lleol) a 7 (Cyfrifoldebau cyrff y GIG o ran Arbenigwr Wrth-dwyll Lleol) yn y mannau lle mae'r geiriau "y CFSMS" yn digwydd rhodder y geiriau "yr Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG" ac yn y mannau lle mae'r geiriau "'r CFSMS" yn digwydd rhodder y geiriau "'r Adran Gwasanaeth Gwrth-dwyll a Rheoli Diogelwch yr AGB y GIG".

Llofnodwyd

Dyddiad:

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

---

(**1**) O.S. 2005/2414 a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/632.